


# Alinio fframweithiau canlyniadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y GIG ac Iechyd y Cyhoedd – Papur crynhoi



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fframweithiau canlyniadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y GIG ac Iechyd y Cyhoedd. Mae gan bob fframwaith ei ddiben ei hun, ac mae pob papur wedi'i dargedu at wahanol boblogaethau ac yn destun gwahanol fesurau atebolrwydd. Ond, yr un nod sydd i bob fframwaith, sef darparu tystiolaeth i ddangos a ydy gwasanaethau yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg cryno o brif amcanion a dibenion pob un o'r tri fframwaith canlyniadau, ac mae'n amlinellu'r dull cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio ym mhob fframwaith i roi cyfeiriad cyson i wasanaethau a phobl yng Nghymru.




Mae'r tri fframwaith canlyniadau yn alinio â'i gilydd ac yn cynnig cysondeb i bob rhanddeiliad ac unigolyn yng Nghymru fel sy'n briodol. Mae'r tri fframwaith yn defnyddio'r un derminoleg gyson ganlynl:



**Canlyniadau** – mae'r rhain yn disgrifio'r profiad a'r amodau llesiant y mae pob fframwaith yn dymuno eu cyflawni ar gyfer ei boblogaeth darged.

I gydnabod y cysylltiad rhwng pob un o'r fframweithiau, mae'r un canlyniadau wedi'u defnyddio i ddisgrifio'r profiad a'r amodau llesiant ym mhob fframwaith lle bo hynny'n briodol. Mae'r canlyniadau yn dilyn egwyddorion gofal iechyd darbodus, i gydnabod bod pobl a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal a bod cyfrifoldeb ar bob un i helpu i gyflawni llesiant.



**Dangosyddion** – mae'r rhain yn helpu i fesur canlyniadau pobl Cymru neu boblogaethau targed penodol

I gydnabod bod rhaid i bob maes gwasanaeth gydweithio i gyflawni gwell llesiant i bobl Cymru, mae'r un dangosyddion canlyniadau wedi'u defnyddio ym mhob fframwaith lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod pob fframwaith yn defnyddio data cyson wrth adrodd ar gynnydd. Mae'r dangosyddion canlyniadau a rennir ar draws pob un o'r 3 fframwaith i'w gweld yn Atodiad A.



Bydd adroddiad blynyddol ysgrifenedig yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r fframweithiau canlyniadau.

Mae'r strwythurau ar gyfer adrodd ar y cyd yn dal i gael eu datblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod dod o hyd i ddull hylaw a chydlynol o gyflwyno'r dangosyddion canlyniadau a rennir yn mynd i fod yn hanfodol i helpu gwasanaethau a phobl yng Nghymru i ddeall sut mae'r tri fframwaith yn alinio â'i gilydd.

Bydd y tri fframwaith canlyniadau yn cael eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a byddant yn ategu'r Ddeddf, gan helpu i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o sut y mae polisïau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cyfrannu at y nodau lesiant cenedlaethol sydd wedi'u diffinio yn y Ddeddf.

Pam cafodd ei greu?

Beth yw ei ddiben?

## Fframwaith canlyniadau y GIG

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar gyfer datblygu fframwaith canlyniadau'r GIG ond cafodd ei ysgogi gan y ddogfen strategol "Law yn Llaw at Iechyd", ac fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn glir a thryloyw ac i ganolbwyntio ar y canlyniadau iechyd sy'n bwysig i ddinasyddion Cymru.

Cafodd y fframwaith ei ddatblygu i gefnogi mesur iechyd ehangach, sy'n mynd y tu hwnt i afiechyd a gwasanaethau gofal eilaidd. Y nod yw ysgogi dull sy'n ystyried y system gyfan ar gyfer gwella llesiant, gyda ffocws penodol ar iechyd.

## Fframwaith canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar gyfer datblygu fframwaith canlyniadau iechyd y cyhoedd ond cafodd ei ysgogi gan y ddogfen strategol "Law yn Llaw at Iechyd". Y dull o ystyried 'iechyd ym mhob polisi' yw'r cyd-destun ehangach sy'n llywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith canlyniadau iechyd y cyhoedd ac mae'n adlewyrchu'r penderfynyddion iechyd a llesiant cymdeithasol ehangach.

Nod y fframwaith yw cael dealltwriaeth gyffredin o'r canlyniadau iechyd sy'n bwysig i holl bobl Cymru a darparu dull i bawb ar gyfer monitro cynnydd o ran gwella iechyd y boblogaeth a'i gynnal. Gellir ei ddefnyddio hefyd i asesu cyfraniad sefydliadau ac i wella dealltwriaeth o'r prif ddylanwadau anfeddygol (economaidd-gymdeithasol) ar iechyd.

## Fframwaith canlyniadau cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol

I fodloni gofyniad statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi'r canlyniadau sydd i'w cyflawni o ran llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth mewn datganiad llesiant. Rhaid i Weinidogion Cymru adrodd hefyd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni llesiant.

I ddisgrifio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol pwysig y dylai pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth ddisgwyl eu cyflawni er mwyn byw bywydau bodlon, o dan y diffiniad o Lesiant, fel a amlinellir yn y Ddeddf.

Bydd hyn yn gosod y cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth i weithio mewn partneriaeth â phobl i ddeall beth sy'n bwysig iddynt i gyd-gynhyrchu eu canlyniadau llesiant personol a fydd yn adlewyrchu'r canlyniadau llesiant cenedlaethol.

Bydd y dangosyddion canlyniadau yn y fframwaith yn rhoi tryloywder ynghylch a ydy gwasanaethau gofal a chymorth yn gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Am bwy y mae hyn?

Pwy sy'n cyfrannu at hyn?

Ble mae wedi'i gyhoeddi?

Holl bobl Cymru.

Pob gwasanaeth yng Nghymru.

Mae fframwaith canlyniadau'r GIG yn cynnwys canlyniadau a dangosyddion canlyniadau yn unig y pennwyd eu bod yn mesur llesiant sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae fframwaith cyflenwi ar waith i gefnogi byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau iechyd i gyflawni iechyd a llesiant.

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/circulars/performance-delivery/?skip=1&lang=cy>

Holl bobl Cymru.

Pob gwasanaeth yng Nghymru.

<http://gov.wales/topics/health/publications/health-reports/public-health-framework?skip=1&lang=cy>

Pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Gall pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth gael gofal a chymorth gan eu hawdurdod lleol, yn y gymuned (gan eu teuluoedd, a ffrindiau, drwy fentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr neu drwy'r trydydd sector) neu'n uniongyrchol drwy'r sector annibynnol.

Mae fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys canlyniadau poblogaeth yn unig a'r dangosyddion canlyniadau y pennwyd eu bod yn mesur llesiant a ddiffinnir yn y datganiad llesiant; ni ellir dal sefydliad unigol yn atebol am gyflawni llesiant.

Mae fframwaith mesur perfformiad wedi'i ddatblygu'n benodol i ddal awdurdodau lleol yn atebol am gefnogi pobl i gyflawni llesiant; nid yw hyn wedi'i ddisgrifio yn y ddogfen hon. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng hyn a'r canlyniadau llesiant ac, er ei fod ar wahân, mae'n rhan o'r un system gyflawn.

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?skip=1&lang=cy>

# Atodiad A – Dangosyddion a rennir

## Dangosyddion a rennir ar draws fframweithiau'r GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol

- % y cleifion sy'n marw lle maen nhw'n dewis (yn cael ei ddatblygu)

Fframwaith  
Canlyniadau'r  
GIG

Fframwaith  
Canlyniadau'r  
Gwasanaethau  
Cymdeithasol

Fframwaith  
Canlyniadau  
Iechyd y  
Cyhoedd

## Dangosyddion a rennir ar draws y tri fframwaith

- \*% y bobl sy'n adrodd eu bod mewn iechyd da neu dda iawn

## Dangosyddion a rennir ar draws fframweithiau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd

- Disgwyliad oes adeg genedigaeth
- Bwlch yn y disgwyliad oes
- Torri esgyrn yn y glun ymhlith pobl hŷn
- % y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- % y bobl sy'n cytuno â'r holl ddatganiadau: yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda; bod pobl yn trin ei gilydd â pharch
- \*Llesiant meddyliol
- \*% y bobl sydd â sgôr uchel o ran bodlonrwydd â bywyd
- \*Cartrefi sydd yn faterol amddifad
- \*% y bobl sy'n gwirfoddoli
- \*% y bobl sy'n adrodd eu bod yn teimlo'n unig
- \*% y rheini â phwysau geni isel

## Dangosyddion a rennir ar draws fframweithiau'r GIG ac Iechyd y Cyhoedd

- Oedolion sy'n smygu
- Pydredd dannedd ymhlith plant 5 oed
- Plant 4/5 oed sydd â phwysau iach
- Smygu yn ystod beichiogrwydd
- Marwolaethau yn sgil hunan-niwed bwriadol neu anaf/gwenwyno lle nad yw'n bendant a oedd yn fwriadol

\* Yr un ffynhonnell ddata (Arolwg Cenedlaethol Cymru) ond yn cael eu hadrodd ar wahanol lefelau. Bydd Iechyd y Cyhoedd a'r GIG yn adrodd ar gyfer Cymru gyfan, ond bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd yn ôl pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.